Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gynradd Creigiau
## Cwrt Tregarth
## Creigiau
## CF15 9NN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Creigiau ym mhentref Creigiau yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Mae 422 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 52 sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser. Mae 16 o ddosbarthiadau un oed yn yr ysgol. Mae tua hanner y disgyblion yn mynychu'r adran Gymraeg a daw 17% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 3.2% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae gan oddeutu 7% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2015. Bu'r pennaeth yn rhannu'r swydd gyda'r cyn-bennaeth am gyfnod o flwyddyn cyn ei phenodi'n llawn amser. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Creigiau yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,483 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,995 a'r isafswm yw £3,046. Mae Ysgol Gynradd Creigiau yn safle 70 allan o'r 97 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yno
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yno ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu gymorth
- staff yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hysgogi'n dda i ddysgu
- gwaith tîm effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywr sy'n annog rhan fwyaf y disgyblion i feithrin agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu
- yr ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar
- yr ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar a chanddi ethos cadarnhaol a chynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i'w datblygiad
- bod gweithdrefnau hunanarfarnu cadarn yn bodoli, sy'n seiliedig ar wybodaeth a gesglir o amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol
- bod cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu
- bod ganddi nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau ac ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion
- bod partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion
- bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol ac yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- ei bod yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg ail-iaith disgyblion y ffrwd Saesneg

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion a sicrhau eu bod yn eu defnyddio'n gyson

A3 Sicrhau gwell cysondeb yn y ffordd y mae athrawon yn rhoi adborth i'r disgyblion a chynyddu'r cyfleoedd iddynt asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n uwch na'r hyn a ddisgwylir am eu hoed. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd da. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth yn frwdfrydig er mwyn caffael gwybodaeth a medrau newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar naill ai yn y Gymraeg neu Saesneg. Maent yn siarad yn agored ac yn synhwyrol am eu gwaith ac yn cyfeirio'n frwdfrydig at ddysgu blaenorol, er enghraifft, wrth drafod anifeiliaid y nos. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o'r gynulleidfa ac maent yn defnyddio geirfa briodol a chynyddol gymhleth yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafaredd llawer o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg yn dda iawn yn y ddwy iaith. Mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion y ffrwd Saesneg hefyd yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn esbonio'n fanwl beth y maent yn ei wneud a pham. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau grŵp. Mae'r disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n huawdl.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau defnyddio llyfrau Cymraeg a Saesneg, a gwnânt gynnydd da yn eu darllen o oed cynnar. Mae rhan fwyaf y disgyblion iau yn darllen yn dda am eu hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud cynnydd cyflym wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl â mynegiant clir, ac yn siarad yn frwdfrydig am eu hoff awduron a llyfrau. Mae llawer ohonynt yn darllen er pleser ac yn defnyddio ystod eang o fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth o gyfeirlyfrau a gwefannau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn crynhoi'r prif bwyntiau'n dda, gan ddefnyddio casgliadau lle bo'n briodol. Mae safonau darllen disgyblion ar draws yr ysgol yn gryfder.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy ffrwd yn datblygu'n effeithiol naill ai yn y Gymraeg neu Saesneg fel sy'n briodol. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth iddynt restru nodweddion y Gwanwyn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn ystod gynyddol o ffurfiau. Wrth i'r disgyblion mwy abl ysgrifennu llythyr o ddiolch i gogydd enwog, maent yn dechrau amrywio brawddegau yn grefftus er mwyn cynnal diddordeb y darllenydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion y ffrwd Gymraeg yn gadarn yn y ddwy iaith. Mae medrau ysgrifennu Saesneg disgyblion y ffrwd Saesneg hefyd yn datblygu'n dda. Erbyn blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o ffurfiau. Gall y rhan fwyaf drosglwyddo'u medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu sgript am hanes y tollbyrth.

Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn aeddfed a thaclus iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau mathemategol cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus a chyson ar draws pob maes dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif, a defnyddiant restrau, tablau a diagramau syml i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth yn gywir. Mae llawer ohonynt yn deall mesuriadau syml yn dda, ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am rinweddau siapiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio eu gwybodaeth o ganrannau'n llwyddiannus wrth ddatrys problemau geiriol. Gall y disgyblion mwy abl ddatblygu eu strategaethau eu hunain wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau wrth gymharu tymheredd Dakar a Chaerdydd. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu trosglwyddo'n bwrpasol i feysydd eraill y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd addas o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn briodol er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth reoli tegan er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn foddhaol. Maent yn defnyddio medrau prosesu geiriau'n hyderus ac, er enghraifft, wrth gasglu data am eu hoff ffrwyth a'i arddangos ar ffurf graff. Mae'r rhan fwyaf yn medru defnyddio meddalwedd ar lechi electronig i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni ac nid ydynt yn cynhyrchu nac yn defnyddio cronfeydd data yn ddigon llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg, sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt, yn gallu ymateb i gyfarwyddiadau syml yn addas. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau darllen hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn medru cynnal sgwrs estynedig yn hyderus ac yn ymateb yn gywir i gwestiynau. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu digon a phrin y maent yn defnyddio'u medrau llafar y tu allan i sefyllfa ffurfiol y dosbarth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig nac ar y lefel uwch na'r disgwyl, drwy graffu ar lyfrau nac yn ystod arsylwadau gwersi. Oherwydd bod maint y carfanau'n fach, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail data disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos tuedd cyffredinol ar i fyny ac

wedi ei gosod yn gyson rhwng yr 50% uwch a’r 25% uchaf mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemateg wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a’r 50% is. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch dros yr un cyfnod wedi bod yn gyson uwch na’r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn Cymraeg wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf bob blwyddyn ac eithrio’r llynedd. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefelau disgwyliedig ac uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi cyflawni ar lefel sydd ddwy yn uwch na’r lefel ddisgwyliedig mewn agweddau ar iaith a mathemateg yn 2016.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth. Mae’r rhan fwyaf yn gwybod beth sydd angen ei fwyta er mwyn bod yn iach ac yn deall pwysigrwydd ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o ddiogelwch ar y we.

Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi ac amser egwyl yn dda iawn. Maent yn gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio’n dda ag eraill ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith. Maent yn datblygu medrau i wella eu gwaith eu hunain yn bwrpasol ac yn dechrau ymateb i sylwadau’r athrawon yn fwy rheolaidd.

Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn cyflawni eu rôl yn llwyddiannus. Mae aelodau’r cyngor ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion eraill yn effeithiol. Yn ddiweddar, maent wedi ailstrwythuro'r ddarpariaeth chwarae ar gyfer amser egwyl. Mae grwpiau eraill, fel y dewiniaid digidol, wedi dechrau cefnogi medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth bwrpasol o fentergarwch drwy redeg y siop ffrwythau yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau lleol ac mewn diwrnod gerddi agored y pentref. Mae’r gweithgareddau hyn yn cryfhau eu cyfranogiad yn y gymuned ac yn cyfrannu’n werthfawr tuag at eu datblygiad personol.

Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion wedi gwella’n gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf er ei fod wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr i’w disgyblion, sy’n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi’n dda. Mae’r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae’r

profiadau allgyrsiol niferus ac ystod eang o ymweliadau maes, fel ymweliad i Lys Hampton yn Llundain, yn cyfoethogi gwybodaeth a medrau cymdeithasol y disgyblion ymhellach yn effeithiol iawn. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol ac wythnosol yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a medrau meddwl y disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion.

Mae'r ysgol yn llwyddo i greu ethos Cymreig ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'r disgyblion yn yr adran Gymraeg yn siarad yr iaith gyda balchder a brwdfrydedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn y Gymraeg fel ail iaith ar gyfer y disgyblion yn y ffrwd Saesneg hefyd yn briodol. Mae gwibdeithiau i fannau diddorol ac ymweliadau gan Gymry enwog i'r ysgol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion o ddiwylliant Cymru yn effeithiol. Mae cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd hefyd yn cyfoethogi eu profiadau yn llwyddiannus.

Mae gwaith y cyngor Eco yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gynaliadwyedd. Enghraifft dda o hyn yw'r cywaith sydd ar y gweill i dyfu helygen, creu basgedi ohono, a'u gwerthu i gynnal gardd yr ysgol. Trwy gyflwyniadau ysgol gyfan, mae'r cyngor Eco yn annog y disgyblion i ailgylchu ac i arbed ynni'n llwyddiannus. Mae gan y disgyblion wybodaeth bwrpasol am y byd ehangach trwy ddysgu am, a chefnogi, elusennau tramor, fel gwisgo melyn am ddiwrnod i hyrwyddo ffermwyr bananas masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae gwaith tîm effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr sy'n annog rhan fwyaf y disgyblion i feithrin agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Caiff hyn ddylanwad da ar eu cynnydd a'u cyrhaeddiad.

Mae ansawdd yr addysgu yn lled gadarn ar draws yr ysgol. Mewn llawer o'r dosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ennyn diddordeb y disgyblion mewn dysgu. Mae gan yr athrawon yn y dosbarthiadau hyn ddisgwyliadau uchel ac maent yn rhannu nodau dysgu pendant gyda'r disgyblion yn eu gwersi. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion ac maent yn cynllunio ar gyfer datblygu eu medrau meddwl yn fedrus. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau holi celfydd sy'n cyfoethogi'r dysgu yn llwyddiannus.

Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae tueddiad gan athrawon i arwain y disgyblion yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion, yn arbennig y mwy abl, i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i osod targedau ar gyfer gwella ac adnabod unrhyw dangyflawniad

yn gynnar. Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain na gwaith eu cyfoedion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion ar eu gwaith yn rheolaidd, a lle gwelir yr arfer orau, mae'r sylwadau'n eu helpu i wella'u gwaith yn effeithiol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar. Trwy weithgareddau corfforol a gynhelir yn ystod yr awr ginio ac yn allgyrsiol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Trwy ddilyn rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol lwyddiannus, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda ac yn meithrin ynddynt werthoedd sy'n seiliedig ar onestrwydd, caredigrwydd a pharch tuag at eu hunain ac eraill. Mae'r ymweliadau gan y Ficer a'r 'Grŵp Agor y Llyfr' lleol, a'r cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn cyngherddau a gweithgareddau eraill yn yr ardal leol, yn cyfoethogi profiadau ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol, fel seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol, sy'n galluogi'r ysgol i gynnig darpariaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn nodwedd gref o waith yr ysgol. O dan arweiniad clir y cydlynydd, mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn darparu cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion sydd eu hangen, ac yn cynnal adolygiadau o'u cynnydd yn rheolaidd, gan gynnwys rhieni a disgyblion fel rhan o'r broses. Mae'r staff cymorth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddatblygiad y disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Creigiau'n gymuned hapus a chroesawgar a chanddi ethos cadarnhaol a chynhwysol. Mae'r holl staff yn annog ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol, yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal. Rhoddir pwyslais ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion.
Mae cyflenwad amrywiol a phwrpasol o adnoddau yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol iawn. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy arddangos gwaith o ansawdd uchel ar y murluniau. Mae'r gofod dysgu o fewn yr adeilad yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at fodloni anghenion y disgyblion i gyd.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol ohono. Mae'r ardal allanol yn amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae'r ardd a'r darn tir ehangach yn adnodd gwerthfawr i ddatblygu medrau dychmygol ac ieithyddol disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Defnyddir yr holl dir i annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol sydd o'u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau rheolaethol yr ysgol, er enghraifft, drwy ddatblygu perchnogaeth yr athrawon ar y data a sicrhau gwell cysondeb yn y cynllunio ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi arwain yn llwyddiannus at godi safonau gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau ac ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli i fodloni gofynion arfaethedig y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur eu heffeithiolrwydd ar draws yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn rheolaidd fel cyfrwng effeithiol i drafod gweithdrefnau cynllunio a chynnydd disgyblion. Cyfranna hyn tuag at godi safonau ar lawr y dosbarth ac at adnabod anghenion disgyblion unigol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus yn unol â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm wedi eu plethu'n effeithiol o fewn y cynlluniau thematig. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad disgyblion bregus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at wella'r ddarpariaeth a'i gwaith yn gyffredinol. Trwy dderbyn adroddiadau gan y pennaeth ac ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, maent yn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd, safonau a lles disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata ac maent yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu cadarn sy'n seiliedig ar wybodaeth a gesglir o amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr ar safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu, barn y rhieni a'r llywodraethwyr ac adolygiad tymhorol yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn ystyried syniadau'r disgyblion yn briodol ac yn gweithredu arnynt. Er enghraifft, mae wedi ychwanegu adnoddau chwarae i ardaloedd allanol yr ysgol ar gais y disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol gan yr holl staff i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn dystiolaeth bod arweinwyr, ar y cyfan, yn adnabod anghenion yr ysgol yn dda. Mae'n cynnig darlun lled gywir o gryfderau'r ysgol a nifer o feysydd sydd angen eu gwella.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ynghyd â meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o amserlen gweithredu, cyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a threfniadau ar gyfer monitro. Mae hyn wedi arwain at welliannau, yn arbennig mewn safonau llythrennedd ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau ac ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion. Enghraifft dda o'r bartneriaeth hon yw'r cyfle gaiff disgyblion i ddatblygu eu medrau celf drwy gydweithio â rhiant ar brosiect celfyddyd fynegiannol Oriel Genedlaethol yn Llundain. Mae'r gymdeithas rhieni'n weithgar ac yn cyfrannu'n ariannol yn flynyddol ar gyfer darparu adnoddau amrywiol a defnyddiol.

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned leol. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau lleol ac yn cyfrannu at wŷl gerddi agored y pentref yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr o'r gymuned i'r ysgol i siarad am eu gwaith. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad myfyrwyr o Goleg Meddygol Caerdydd i drafod eu gwaith a chyfrannu tuag at uchelgais a dyhead y disgyblion ar gyfer y dyfodol.

Mae'r berthynas agos sy'n bodoli gyda'r Cylch Meithrin lleol yn sicrhau bod y disgyblion ifainc yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth meithrin.

Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng nifer o ysgolion eraill i rannu arfer dda ac i ddatblygu strategaethau addysgu newydd. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth rhwng un ysgol arall yn y gymuned ehangach i godi safon marcio ar draws yr ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith ysgrifenedig y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn y clwstwr i sicrhau cysondeb yn asesiadau athrawon. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth athrawon o lefelu gwaith, ac at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion.

Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ddwy ysgol uwchradd yn effeithiol ac yn eu paratoi'n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau, a gwella lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff. Er enghraifft, mae hyfforddiant y staff ar gyfer gwella agweddau o ysgrifennu wedi arwain ar gynnydd mewn safonau llythrennedd llawer o'r disgyblion. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o ysgolion eraill i gynnig cyfleoedd i athrawon rannu arfer dda ac i gyfoethogi'r ddarpariaeth mewn meysydd fel ceisio cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched, er enghraifft.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae cyswllt amlwg yn bodoli rhwng y gwariant a blaenoriaethau cynllun yr ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau a deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6812305 - YSGOL GYNRADD CREIGIAU**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 54 | 49 | 53 | 50 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 94.4 | 91.8 | 94.3 | 98.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 27 | 24 | 27 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 96.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.1 | 48.1 | 37.5 | 48.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 22 | 29 | 23 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 90.9 | 96.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.1 | 31.8 | 44.8 | 60.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 49 | 53 | 50 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 93.9 | 94.3 | 98.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 40.8 | 37.7 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 49 | 53 | 50 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 98.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 63.0 | 46.9 | 69.8 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6812305 - YSGOL GYNRADD CREIGIAU**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 42 | 45 | 49 | 53 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 97.6 | 97.8 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 45 | 49 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.6 | 97.8 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 59.5 | 48.9 | 49.0 | 54.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 18 | 21 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 50.0 | 57.1 | 52.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 45 | 49 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.6 | 100.0 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 61.9 | 53.3 | 65.3 | 50.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 45 | 49 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.6 | 100.0 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 59.5 | 44.4 | 57.1 | 52.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 108 | 108<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 108 | 108<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 107<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 108 | 108<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 106<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 107 | 104<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 108 | 108<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 108<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 103<br>99%<br>90% | 1<br>1%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 108 | 106<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 103 | 91<br>88%<br>77% | 12<br>12%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 104 | 96<br>92%<br>84% | 8<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 78 | 51 | 23 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 29% | 4% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 78 | 62 | 15 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 79% | 19% | 0% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 78 | 54 | 19 | 2 | 1 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 24% | 3% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 78 | 49 | 21 | 7 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 27% | 9% | 1% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 78 | 48 | 26 | 1 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 62% | 33% | 1% | 1% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 78 | 41 | 28 | 4 | 1 | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 36% | 5% | 1% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 78 | 41 | 32 | 2 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 53% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 78 | 32 | 27 | 9 | 1 | 9 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 41% | 35% | 12% | 1% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 78 | 43 | 24 | 3 | 2 | 6 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 55% | 31% | 4% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 78 | 37 | 37 | 3 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 47% | 47% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 78 | 53 | 21 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 27% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 78 | 28 | 27 | 7 | 2 | 14 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 36% | 35% | 9% | 3% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 78 | 35<br>45% | 31<br>40% | 8<br>10% | 2<br>3% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 78 | 53<br>68% | 15<br>19% | 5<br>6% | 4<br>5% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 78 | 27<br>35% | 41<br>53% | 2<br>3% | 3<br>4% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 77 | 43<br>56% | 25<br>32% | 3<br>4% | 1<br>1% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 73 | 23<br>32% | 16<br>22% | 2<br>3% | 0<br>0% | 32 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 78 | 36<br>46% | 34<br>44% | 4<br>5% | 1<br>1% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 78 | 47<br>60% | 25<br>32% | 2<br>3% | 1<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Silyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Kirkman | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.